# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

**RHAN 7** E+W

DIOGELU

*Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion*

### 135 Swyddogaethau a gweithdrefnau Byrddau Diogelu E+W

(1) Amcanion Bwrdd Diogelu Plant yw—

(a) amddiffyn plant o fewn ei ardal sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin, eu hesgeuluso, neu ddioddef mathau eraill o niwed, a

(b) atal plant o fewn ei ardal rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed.

(2) Amcanion Bwrdd Diogelu Oedolion yw—

(a) amddiffyn oedolion o fewn ei ardal—

(i) y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), a

(ii) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin neu eu hesgeuluso, a

(b) atal yr oedolion hynny o fewn ei ardal y soniwyd amdanynt ym mharagraff (a)(i) rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

(3) Rhaid i Fwrdd Diogelu geisio sicrhau ei amcanion drwy gydgysylltu'r hyn a wneir gan bob person neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd a gwneud yn siŵr ei fod yn effeithiol.

(4) Rhaid i reoliadau—

(a) darparu i Fwrdd Diogelu gael swyddogaethau sy'n ymwneud â'i amcanion (gan gynnwys, er enghraifft, swyddogaethau adolygu neu ymchwilio);

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 135 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(b) gwneud darpariaeth ynghylch y gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan Fwrdd Diogelu;

(c) pennu pryd a sut y mae'n rhaid i blant neu oedolion y mae swyddogaethau Bwrdd Diogelu yn effeithio arnynt, neu y gallent effeithio arnynt gael cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.

(5) Caiff Bwrdd Diogelu gydweithredu ag un neu fwy o Fyrddau Diogelu eraill.

(6) Caiff Bwrdd Diogelu weithredu ar y cyd ag un neu fwy o Fyrddau Diogelu eraill mewn perthynas â'u hardaloedd cyfun ac os byddant yn gwneud hynny—

(a) mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at Fwrdd Diogelu i'w darllen fel cyfeiriadau at y Byrddau sy'n gweithredu ar y cyd, a

(b) mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at ardal Bwrdd Diogelu i'w darllen fel cyfeiriadau at yr ardal gyfun.

(7) Caiff y Bwrdd Diogelu Plant a'r Bwrdd Diogelu Oedolion ar gyfer ardal ffurfio cyd-fwrdd ar gyfer yr ardal, ac os ydynt yn gwneud hynny—

(a) mae'r cyd-fwrdd i gael yr amcanion yn is-adrannau (1) a (2), a

(b) mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at Fwrdd Diogelu i'w darllen fel cyfeiriadau at y cyd-fwrdd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 135 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 135 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 135 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 162(4)(ga) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 30(2)(b)
- s. 163(4A) inserted by 2014 c. 23 s. 75(10) (Effect inserting (4) not applied at s. 163 as it appears to relate to s. 194 in view of the title of the section as cited i.e. "ordinary residence". In s. 194 another (4), identically worded, is inserted on the same date by S.I. 2016/413, regs. 2(1), 316(a))